**Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion**

# Nodiadau Cyfarwyddyd RM01A ar wneud cais am drwydded i Fewnforio Anifeiliaid Byw sy'n gallu dal y Gynddaredd heblaw am gŵn, cathod a ffuredau anwes (ffurflen RM01)

## Mawrth 2025

## Cynnwys


1. Cefndir ..... 1

2. Rhywogaeth i'w mewnforio (RM01 Adran 2) ..... 1

3. Porthladd glanio (RM01 Adran 3) ..... 2

4. Safle gwreiddiol (RM01 Adran 4) ..... 2

5. Safle pen y daith (RM01 Adran 5) ..... 2

6. Gwybodaeth ychwanegol am anifeiliaid y bydd angen cyfnod cwarantin arnynt (RM01 Adran 6) ..... 3

Atodiad I: Categorïau o rywogaethau egsotig a gwmpesir gan Orchymyn y Gynddaredd (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid Eraill) 1974 (fel y'i diwygiwyd) ..... 4

Atodiad II rhan A: Coeden benderfynu i leihau cyfnod cwarantin i anifeiliaid egsotig mewn sŵau o wledydd yr UE ..... 6

Atodiad II rhan B: Coeden benderfynu i leihau cyfnod cwarantin i anifeiliaid egsotig mewn sŵau o drydydd gwledydd ..... 7

Atodiad III: Rhestr o'r gwledydd lle nad yw'r Gynddaredd yn bresennol ..... 8

Atodiad IV: Datganiad gan y safle gwreiddiol ..... 9

Atodiad V: Amodau sy'n gymwys i anifeiliaid sy'n dechrau cwarantin ..... 11

Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981

Gorchymyn y Gynddaredd (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid Eraill) 1974 (fel y'i diwygiwyd)

**Darllenwch yn ofalus cyn cwblhau'r ffurflen gais RM01**

# 1. Cefndir

Mae'r diwygiad i'r Gorchymyn uchod yn golygu ei bod yn bosibl caniatáu mewnforio rhai rhywogaethau a gwmpesir gan y gorchymyn heb fod angen cwarantin, os mai dim ond risg fach iawn o gyflwyno'r gynddaredd sy'n gysylltiedig â nhw. Er mwyn i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) benderfynu a oes angen cwarantin dylid cwblhau'r ffurflen gais (RM01) yn llawn.

Noder:

- Nid yw eithriad rhag cwarantin yn eithriad rhag unrhyw ddeddfwriaeth arall. Bydd deddfwriaeth arall, gan gynnwys Cyfarwyddeb yr UE 92/65/ECC (Balai) yn dal i fod yn berthnasol i'r anifeiliaid hyn.

- Mae'n bwysig dilyn y cyfarwyddyd yn y ddogfen hon ac ar ffurflen gais RM01 yn ofalus er mwyn sicrhau bod APHA yn cael y wybodaeth angenrheidiol. Gallai methiant i wneud hynny arwain at oedi diangen.

- Ni fydd APHA yn gallu mynd ar drywydd gwybodaeth goll (gan drydydd gwledydd), a allai arwain at sefyllfa lle mae'n rhaid i anifeiliaid fynd drwy gwarantin er eu bod yn gymwys i gael eu heithrio o bosibl.

- Os bydd gwybodaeth ychwanegol yn dod i law ar ôl i'r anifeiliaid ddechrau cwarantin, mae'n bosibl y bydd modd gwneud cais i'w rhyddhau'n gynnar.

- Mae'n rhaid i Atodiad IV gael ei gwblhau ar gyfer pob cais pan ofynnir am gael hepgor cwarantin. Ceir enghraifft ohono yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

- Ni ddylid gwneud unrhyw drefniadau cludo nes bod cadarnhad wedi dod i law y caiff y drwydded ei rhoi.

# 2. Rhywogaeth i'w mewnforio (RM01 Adran 2)

Ceir rhestr o'r rhywogaethau a gwmpesir gan y Gorchymyn yn Atodiad I i'r ddogfen hon. Mae'n categoreiddio'r rhywogaeth yn ôl risg ac nid oes angen i rai rhywogaethau (Pinnepedia) fynd drwy gwarantin mwyach ond bydd angen iddynt gael trwydded lanio o hyd. Bydd angen trwydded ar gyfer pob math o anifeiliaid cigysol, primatiaid ac ystlumod. Os caiff amodau Balai eu bodloni, ni fydd angen trwydded ar gyfer yr anifeiliaid eraill a restrir yn atodlen 1 rhan II o'r Gorchymyn. Mae'n bwysig eich bod yn edrych yn ofalus ar gategori'r rhywogaeth yr hoffech ei mewnforio.

Bydd unrhyw anifail/anifeiliaid y mae cwarantîn wedi cael ei hepgor ar ei gyfer/ar eu cyfer yn cael trwydded lanio ac mae'n rhaid ei gludo/eu cludo mewn gofod aer ar wahân i anifail/anifeiliaid nad yw hepgoriad cwarantin yn eu cwmpasu.

Ceir dwy goeden benderfynu i'w hystyried, un ar gyfer mewnforion o drydydd gwledydd, a'r llall ar gyfer anifeiliaid o'r UE. Unwaith y byddwch wedi pennu'r categori ewch i'r Goeden Benderfynu berthnasol yn Atodiad II. Dechreuwch ar ochr chwith uchaf y goeden gan fynd i lawr i'r categori priodol. Yna, dilynwch y penderfyniadau i'r dde er mwyn cadarnhau'r hyn sydd ei angen er mwyn i eithriad gael ei ystyried.

Nodwch mai canllaw yn unig yw hwn a gall amgylchiadau newid (e.e. achos newydd o'r gynddaredd yn y wlad tarddiad) felly bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan APHA neu ei gyfeirio at y cyswllt polisi priodol lle y bo angen.

# 3. Porthladd glanio (RM01 Adran 3)

Er y gall APHA eithrio anifail rhag cwarantin nid oes modd ei eithrio rhag y rheolau ynglŷn â glanio mewn Porthladd/Maes Awyr a gymeradwywyd o dan y Gorchymyn os bydd angen trwydded. Ac ni allwn ychwaith eithrio anifail rhag glanio mewn Safle Rheoli Ffiniau os yw'n dod o drydedd wlad.

Bydd y drwydded ar gyfer cwarantin yn cael ei rhoi am gyfnod sy'n dod i ben bedwar mis ar ôl y dyddiad y rhoddwyd y drwydded.

# 4. Safle gwreiddiol (RM01 Adran 4)

Cwblhewch bob is-adran yn llawn gan y bydd angen y wybodaeth hon i asesu'r risg o glefyd ar y safle gwreiddiol. Bydd cydymffurfiaeth â Chyfarwyddeb yr UE 92/65/EEC (Balai), ar y cyfan, yn darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnom i asesu'r risg. Yn anffodus, nid yw'r Gyfarwyddeb hon wedi cael ei rhoi ar waith yn yr un modd ledled Ewrop ac ni ellir cymeradwyo safleoedd mewn trydydd gwledydd. Efallai y bydd angen gwybodaeth ychwanegol arnom i gadarnhau bod y safle gwreiddiol o statws cyfatebol.

Bydd Atodiad IV wedi'i gwblhau yn darparu'r wybodaeth ychwanegol angenrheidiol ar gyfer asesiad risg. Dylech ei atodi i'r RM01 wrth anfon y cais i'r Ganolfan Masnach Ryngwladol - Caerliwelydd fel y gellir ei ystyried fel rhan o'r asesiad risg.

# 5. Safle pen y daith (RM01 Adran 5)

Mae'n bwysig i ni wybod statws safle pen y daith o dan Gyfarwyddeb 92/65/EEC (Balai) gan y bydd rhagofalon clefydau sy'n ofynnol er mwyn cael cymeradwyaeth Balai yn effeithio ar ein hasesiad risg. Bydd safleoedd cymeradwy ym Mhrydain Fawr yn cael eu rhestru yn https://www.gov.uk/government/publications/balai-directive-approved-premises

Hefyd, o dan Gyfarwyddeb 92/65/EEC (Balai) dim ond i safleoedd cymeradwy y caniateir mewnforio primatiaid. Bydd ceisiadau i fewnforio primatiaid i safleoedd nad ydynt wedi'u cymeradwyo o dan Balai, gyda neu heb gwarantin, yn cael eu gwrthod.

# 6. Gwybodaeth ychwanegol am anifeiliaid y bydd angen cyfnod cwarantin arnynt (RM01 Adran 6)

Unwaith y byddwch wedi dilyn y goeden benderfynu ac os oes posibilrwydd na all yr anifail gael ei eithrio rhag cwarantin, yna bydd angen cwblhau Adran 6. Gall methiant i gwblhau'r adran hon arwain at oedi cyn rhoi trwydded cwarantin os bydd APHA o'r farn bod angen un.

# Atodiad I: Categorïau o rywogaethau egsotig a gwmpesir gan Orchymyn y Gynddaredd (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid Eraill) 1974 (fel y'i diwygiwyd)


| Categori | Anifeiliaid | Cwarantin |
|---|---|---|
| **1** | Ystlumod fampir (**Desmodontidae**) | Parhaol |
| **2** | Ystlumod eraill: **Chiroptera** (nid Desomodontidae);<br><br>Anifeiliaid cigysol: **Anifeiliaid cïol, anifeiliaid cathfilaidd, carlymoliaid, anifeiliaid o'r teulu procyonidae, anifeiliaid o'r teulu viverridae, anifeiliaid arthaidd, anifeiliaid udol** (Cŵn, cathod, jacaliaid, llwynogod, bleiddiaid, eirth, racwniaid, coatïod, pandas, dyfrgwn, gwencïod, belaod, ffwlbartiaid, moch daear, drewgwn, mincod, melfrochod, pergathod, cathod mwsg, linsangod, mongwsiaid, udfilod, cathod gwyllt brych, pwmaod, llewpartiaid hela, llewod, teigrod a llewpardiaid) | Cwarantin – Wedi'i hepgor/leihau ar ôl asesiad risg |
| **3(a)** | **Primatiaid** (chwistlod y coed, lemyriaid, indrisiaid, siffacaod, ai-aiod, lorisiaid, galagoaid, tarsierod, llygod y derw, iwacariaid, saciaid, udwyr, mwncïod cycyllog, gwiwerfwncïod, marmosetiaid, tamariniaid, macacos, mangabeod, babwniaid, langwriaid, giboniaid, epaod mawr); | Cwarantin – Wedi'i hepgor/leihau ar ôl asesiad risg<br><br>**Trydedd Wlad**<br>Gweler y dystysgrif yn BLLV 6 sy'n ofynnol i fewnforio pob math o brimat |
| **3(b)** | **Rodentia** (Llygod daear, gwiwerod, gwiwerod rhesog, marmotiaid, gwiwerod cynffon cennog, llygod bychain, llygod mawr codog, afancod, afancod mynydd, springhaas, llygod, llygod mawr, bochdewion, lemingiaid, llygod y gwair, gerbilod, llygod dŵr, pathewod, llygod neidio, jerboaid, ballasgod, moch cwta (gan gynnwys moch Gini), | **Trydedd Wlad**<br>Cwarantin – Wedi'i hepgor/leihau ar ôl asesiad risg<br><br>**Yr UE**<br>Dim trwydded os cydymffurfir â Balai Fel arall cwarantin (ac |

| | | |
|---|---|---|
| | capybaraod, tsintsilaod, llygod dreiniog, llygod crib);<br><br>**Dermoptera** (lemyriaid hedegog);<br><br>**Xenarthra** (Morgrugysorion, diogynnod, armadilod);<br><br>**Hyracoidea** (Hyraxes);<br><br>**Eulipotyphyla** (solenodoniaid, tenreciaid, dyfrgwn chwistlod yr afon, gwaddod aur, draenogod, chwistlod mawr, chwistlod, gwaddod, desmanod.<br><br>**Marsupalia** (oposymiaid, llygod bolgodog, dasiwrod, gwaddod bolgodog, morgrugysorion bologodog, bandicwtiaid, oposymiaid bach, cwscwsiaid, bodfilod, coalas, wombatiaid, walabïod, cangarŵod); | eithrio o wledydd lle nad yw'r gynddaredd yn bresennol) |
| **3(c)** | **Lagomorpha** (Picaod, cwningod, ysgyfarnogod); | Wedi'u masnachu yn yr UE - Tystysgrif Iechyd Filfeddygol - dim angen trwydded cwarantin.<br><br>Trydedd Wlad - cwarantin wedi'i hepgor/leihau ar ôl asesiad risg |
| **3(d)** | **Anifeiliaid adeindroed** (morloi, morlewod) | Nid oes angen cwarantin ond mae angen trwydded lanio |

**Noder: Bydd cyfnod cwarantin o bedwar mis yng Nghymru a Lloegr a thri mis yn yr Alban.**


# Atodiad II rhan A: Coeden benderfynu i leihau cyfnod cwarantin i anifeiliaid egsotig mewn sŵau o wledydd yr UE

1. Bydd hepgoriadau yn cael eu rhoi yn amodol ar asesiad risg



# Atodiad II rhan B: Coeden benderfynu i leihau cyfnod cwarantin i anifeiliaid egsotig mewn sŵau o drydydd gwledydd

1. Bydd hepgoriadau yn cael eu rhoi yn amodol ar asesiad risg



# Atodiad III: Rhestr o'r gwledydd lle nad yw'r Gynddaredd yn bresennol

| | |
|---|---|
| Andorra | Malta |
| Awstralia | Martinique (Ffrainc) |
| Barbados | Mauritius |
| Brunei Darussalam | Micronesia (Taleithiau Ffederal) |
| Cape Verde | Caledonia Newydd |
| Ynysoedd Cayman | Seland Newydd |
| Comoros | Norwy |
| Cyprus | Papua Guinea Newydd |
| Dominica | Réunion (Ffrainc) |
| Ffiji | Samoa |
| Y Ffindir | San Marino |
| Polynesia Ffrengig | Seychelles |
| Guadeloupe (Ffrainc) | Singopore |
| Gwlad yr Iâ | St Kitts a Nevis |
| Iwerddon | St Vincent a'r Grenadines |
| Jamaica | Sweden |
| Japan | Vanuatu |
| Maldives | Ynysoedd Wallis a Futuna |

# Atodiad IV: Datganiad gan y safle gwreiddiol

Dylai'r datganiad gan y Milfeddyg sy'n gyfrifol am iechyd a lles anifeiliaid ar y safle gwreiddiol gynnwys:

1. Y Safle Gwreiddiol:

- Enw a Chyfeiriad
- Manylion cymeradwyo o dan Gyfarwyddeb yr UE 92/65/EEC neu Statws Cenedlaethol cydnabyddedig arall
- A oes gan y sefydliad/corff raglen wyliadwriaeth ar gyfer clefydau ar waith?

  Os oes un, rhowch gopi.

2. Statws iechyd y safle gwreiddiol:

- A fu unrhyw achosion o'r gynddaredd yn ystod y pedwar mis diwethaf ar y safle gwreiddiol a/neu yn y cyffiniau?

3. Manylion yr Anifeiliaid sydd i'w mewnforio:

- Rhywogaethau
- Nod Adnabod (Rhif Microsglodyn)
- Dyddiad y symudodd yr anifail/anifeiliaid ar y safle a tharddiad yr anifail/anifeiliaid
- A yw'r anifail/anifeiliaid wedi bod yn byw ar y safle am o leiaf bedwar mis
- Os naddo, nodwch y dyddiad symud i'r safle a chyfeiriad y daliad blaenorol
- A yw'r anifail/anifeiliaid wedi cael unrhyw gyswllt ag anifeiliaid eraill yn ystod y pedwar mis diwethaf (oni bai eu bod hefyd wedi bod ar y safle am bedwar mis)
- A yw'r anifail/anifeiliaid yn dod o leoliad o fewn ffiniau'r sefydliad cyfyngedig cymeradwy?
- Hanes brechu
- Nid yw'r anifail/anifeiliaid yn dangos unrhyw arwyddion o glefydau ac mae/maent yn ddigon iach ar gyfer hyd y daith.

4. Manylion y Milfeddyg:

- Enw, cymwysterau a chyfeiriad y Milfeddyg.
- Y cyfnod yn gyfrifol am yr anifeiliaid ar y safle
- Cyfeiriad e-bost

- Llofnod, stamp a dyddiad.

# Atodiad V: Amodau sy'n gymwys i anifeiliaid sy'n dechrau cwarantin

**Amod 1:** rhaid glanio'r anifail/anifeiliaid cyn pen pedwar mis calendr (oni nodir fel arall) o'r dyddiad y rhoddwyd y drwydded. Os caiff anifail ei anfon drwy'r awyr rhaid sicrhau na fydd yn gallu dianc o'r cynhwysydd/crât ac na fydd neb yn gallu dod i gysylltiad â thrwyn na phawen drwyddo a'i fod yn cyrraedd safonau priodol y Gymdeithas Cludiant Awyr Ryngwladol (IATA); a rhaid i'r anifail deithio fel llwyth cofnodedig yn adran llwythi'r awyren. Ni chaniateir iddo, o dan unrhyw amgylchiadau, deithio yn yr adran caban nac fel eitem ychwanegol a gaiff ei chario gan y teithiwr ei hun.

**Amod 2:** p'un a gaiff ei anfon dros y môr neu drwy'r awyr, dim ond os yw dogfen fyrddio a roddwyd gan Defra/Llywodraeth Cymru/Llywodraeth yr Alban wedi ei chyflwyno i'r llongwr neu'r cwmni hedfan cyn cludo y gellir ei roi ar fwrdd llong neu awyren i'w gludo i gyrchfan ym Mhrydain Fawr, a rhaid atodi label (Ffurflen RM03B) a ddarparwyd gan Defra/Llywodraeth Cymru/Llywodraeth yr Alban i'r cynhwysydd neu'r crât.

**Amod 3:** ar ôl glanio'r anifail/anifeiliaid ni ddylid ei/eu symud ac eithrio mewn cynhwysydd neu grât addas a thrwy asiant cludo awdurdodedig neu ei gynrychiolydd.

**Amod 4:** tra bydd yr anifail/anifeiliaid yn cael ei gludo/eu cludo rhaid ei gadw/eu cadw mewn cynhwysydd neu grât addas a gymeradwywyd gan yr asiant cludo a nodir yn y drwydded. Rhaid atodi label cymeradwy (Ffurflen ID44/RM05) i'r cynhwysydd neu'r crât. Dylid anfon copi o'r drwydded gyda'r anifail/anifeiliaid yn ystod y daith.

**Amod 5:** rhaid i'r cerbydau a'r cynwysyddion a ddefnyddiwyd, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl symud yr anifail/anifeiliaid, a chyn iddynt gael eu hailddefnyddio, gael eu glanhau a'u diheintio a rhaid i cynwysyddion na ellir eu glanhau na'u diheintio'n ddigonol gael eu dinistrio.

**Amod 6:** os bydd yr anifail/anifeiliaid yn dianc neu'n cael ei golli/eu colli yn ystod y daith, neu mewn unrhyw borthladd neu faes awyr, neu tra byddant mewn safle cwarantin cymeradwy, rhaid i'r person sy'n gyfrifol am yr anifail/anifeiliaid hysbysu'r swyddfa Safonau Masnach leol, y swyddfa APHA leol a'r Ganolfan Masnach Ryngwladol - Caerliwelydd ar unwaith fod yr anifail/anifeiliaid wedi dianc/cael ei golli/eu colli drwy ffonio neu anfon ffacs.

**Amod 7:** ar ôl cyrraedd y safle cwarantin cymeradwy rhaid cadw ac ynysu'r anifail/anifeiliaid yn unol ag Amodau Gorchymyn y Gynddaredd (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid Eraill) 1974 (fel y'i diwygiwyd) am bedwar mis calendr, yng Nghymru a Lloegr neu dri mis yn yr Alban o ddyddiad glanio'r anifail/anifeiliaid. Os bydd yr anifail/anifeiliaid yn dod i gysylltiad ag anifeiliaid a fewnforiwyd yn ddiweddarach bydd yn rhaid i'r anifeiliaid a fewnforiwyd yn gynharach dreulio cyfnod mewn cwarantîn sy'n cydredeg â chyfnod cwarantîn yr anifeiliaid a fewnforiwyd yn ddiweddarach, neu os bydd:

(a) achos o'r gynddaredd yn y man cadw, neu

(b) yr anifail/anifeiliaid yn rhannu lle ag anifail arall neu anifeiliaid eraill a bod unrhyw un o'r anifeiliaid hyn yn marw, gellir cadw'r anifail/anifeiliaid am y cyfryw gyfnod pellach ag y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei orchymyn.

**Amod 8:** ni ddylid symud yr anifail/anifeiliaid yn ystod y cyfnod hwn ac eithrio'n ddarostyngedig i delerau trwydded a roddwyd ar gyfer symud anifeiliaid i safle awdurdodedig arall neu i'w (h)allforio.

**Amod 9:** rhaid i'r drwydded fewnforio fod ar gael at ddibenion Tollau ar adeg dod i mewn i'r DU mewn perthynas â'r llwyth.

**Amod 10:** rhaid i'r unigolyn sy'n gyfrifol am yr anifail/anifeiliaid gyflwyno copi o'r drwydded ar unrhyw adeg ar gais i'w harchwilio gan un o swyddogion yr Defra/Llywodraeth Cymru/Llywodraeth yr Alban neu Awdurdodau'r Heddlu.

**Amod 11:** os na fydd y drwydded yn cael ei defnyddio am unrhyw reswm, mae'n rhaid hysbysu'r Ganolfan Masnach Ryngwladol a/neu ddychwelyd y drwydded.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2020

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu anfonwch neges e-bost i PSI@nationalarchives.gov.uk

**Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth**
Nodir sut rydym yn defnyddio eich data personol yn ein siarter gwybodaeth bersonol a'n hysbysiadau preifatrwydd:
https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs/about/personal-information-charter

https://www.gov.uk/government/publications/animal-and-plant-heath-agency-privacy-notices.cy

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Bwyd yr Alban i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.